

PWYLLGOR DATHLU ACHUB LLANGYNDEYRN A CHWM GWENDRAETH FACH

**Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Nhafarn y Gof, Llangyndeyrn
12fed o Orffennaf 2012 am 7.30 y.h.**

Presennol	Diana Thomas-Laidlaw – Ysgrifenydd John Thomas - Cyd-Gadeirydd David Thomas- Cyd-Gadeirydd Robert Thomas Brendan Griffiths Lynwen Pierce	Mary Pugh Hugh Williams Carol Williams Elin Jones Peter Jones Robert Rhys Gerwyn Rhys
Ymddiheuriadau am Absenoldeb	Mrs.Brodrick Christopher Smith Einir Griffiths Arwyn Richards Ann Richards David Saywell Marc Jones Ian Jones Tyssul Evans Sulwyn Thomas Gwydion Wynne	

	Gweithredu
MATERION YN CODI AC AGENDA. 1. Gwnaeth John Thomas groesawu pawb i'r cyfarfod. 2. <u>Cywirdeb Cofnodion y cyfarfod blaenorol (31.5.2012)</u> Cadarnhawyd fod pawb wedi derbyn y copiau o gofnodion y cyfarfod blaenorol a ddanfonwyd trwy e.bost gan Diana. Nododd Diana taw adrodd yn ôl wrth yr Is-Bwyllgor Gweithgareddau + Codi arian yn lleol ddylai ymddangos fel teitl i bwynt saith o gofnodion cyfarfod 31ain o Fai 2012. Gwnaeth Rob ac Elin gynnig ac eilio eu bod yn gywir. 3. <u>Adrodd yn ôl wrth yr Is-Bwyllgor Marchnata</u> Nodwyd y pwyntiau canlynol gan Rob : * Bod y comisiwn i greu'r llun yn mynd i gael ei roi i'r artist Gareth Huw Davies. Y cost am greu'r llun ydy £500. Bydd Rob yn cysylltu gyda Gareth Huw Davies.	R.T.

*Bod y crochenwaith yn mynd i gael ei gynhyrchu, a bod Brian Thomas yn mynd i geisio cael grant ar gyfer hyn.

*Bod y biros a'r pensiliau yn mynd i gael eu cynhyrchu yn agosoch (o safbwynt amser) at y prif ddatliadau.

*Bod angen cael lluniau o'r pentref a'r ardal leol ar gyfer y calendr. Y bwriad yw cael 12 o luniau o'r pentref yn y gorffennol, a 12 llun cyfoes. Nodwyd bod Bren a John eisoes wedi bod lawr yn siarad a Donald Williams. Y bwriad yw dewis rhai lluniau o blith y rhai oedd gan Donald, gan hefyd ddewis 12 o luniau cyfoes. Bydd dau lun felly ar gyfer pob mis. Awgrymodd Peter taw aelodau'r Is-Bwyllgor marchnata ddylai fod yn dewis y lluniau. Cytunodd Diana gyda'r awgrym hyn. Nododd Rob y bydd yn costio rhwng £600 ac £800 i gynhyrchu cant o galendrau. Felly bydd y calendr yn costio o leiaf £6 yr un.

Nododd David y gallem wneud ymholiadau i weld beth fyddai'r gost o gynhyrchu dau gant o galendrau.

4. Adrodd yn ôl wrth yr Is-bwyllgor "Trefnu Gweithgareddau a Chodi Arian yn Lleol."

Gwnaeth Elin ddiolch i bawb am y gefnogaeth adeg yr Helfa Drysor.

Nododd bod 24 car wedi cymryd rhan, bod arian wedi cael ei godi trwy raffl, bod £100 o rodd wedi dod wrth yr ysgol, a bod Mrs. Brodrick hefyd wedi rhoi rhodd o £100.

Dywedodd Elin bod sôn am drefnu Helfa Drysor arall ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Nododd bod y gweithgareddau nesaf wedi eu trefnu ar gyfer tymor yr Hydref.

Diolchodd John i Elin, Karen a Peter am drefnu'r Helfa Drysor.

5. Adrodd yn ôl wrth yr Is-bwyllgor Cyhoeddusrwydd.

Nododd David nad oedd unrhyw beth i'w adrodd yn ôl, gan nad oedd yr Is-Bwyllgor wedi cwrrd. Tynnodd sylw pawb at y ffaith bod erthygl am yr ymgyrch yn erbyn y boddi yn y "Carmarthen Journal" yr wythnos hon – cafodd Hugh Williams ei gyfweld gan Rachel Moses. Nododd Brendan bod Rachel Moses yn awyddus i helpu i roi cyhoeddusrwydd i'n datliadau.

6. Cyfarfod gyda Hywel Rees yn "Y Berllan"

Nododd John bod Hywel Rees wedi dod a llawer o doriadau o'r wasg, ynghyd a dyddiadur ei dad adeg y frwydr, i'r cyfarfod. Wedi trafodaeth, fe gytunwyd i gynhyrchu un llyfr yn y diwedd – "Llyfr Atgofion." Bydd Robert Rhys yn defnyddio deunydd o ddyddiadur W.M.Rees, yn ogystal a ffeithiau o "Cloi'r Clwydi" yn y llyfr newydd i'w gyhoeddi ar gyfer datliad 2013. Mae Ann Richards yn mynd i drefnu bod rhywun yn mynd i fynd o amgylch i recordio/casglu atgofion pobl a oedd yn byw yn y pentref adeg y frwydr, oblegid bydd yr atgofion hyn yn cael eu cynnwys yn y llyfr newydd hefyd.

Nodwyd y bydd cyfieithiad o "Cloi'r Clwydi" yn mynd ar y wefan yn weddol fuan.

Nodwyd y pwyntiau canlynol gan Robert Rhys :

<p>*Bydd yn gweithio ar y llyfr newydd (“Llyfr Atgofion” – fydd yn cynnwys llinell amser o’r digwyddiadau dros y Gaeaf hwn.</p> <p>*Mae’n fwriad gosod y llyfr newydd ar y wefan, fel “e.lyfr,” yn y Gymraeg a’r Saesneg.</p> <p>*Bod y gwaith o gyfieithu “Cloi’r Clwydi” wedi ei ddechrau.</p> <p>*Bod cais am y grant “Treftadaeth Ddiwylliannol” yn mynd i gael ei gyflwyno.</p> <p>*Bod y grant yn £11,500. Bydd 80% yn dod fel grant, a bydd rhaid i ni ddod o hyd i’r 20% arall. Bydd rhaid i ni dalu ein cyfran ni o’r arian cyn bydd y grant yn cael ei dalu.</p> <p>Nodwyd efallai y gall Christopher ofyn i Tyssul (trwy’r Cyngor) am fenthyciad o ddeg neu unarddeg mil.</p> <p>Gwnaeth Lynwen dynnu ein sylw at y wefan “hlf.org.uk”, a bod arian sylweddol i’w gael i greu stori eich pentref. Gellir creu arddangosfa/byrddau gwybodaeth. Dywedodd Lynwen y byddai’n trosglwyddo enw a rhif ffôn i Christopher, er mwyn iddo fedru gwneud ymholiadau pellach.</p> <p>7. <u>U.F.A.</u></p> <p>*Nodwyd y gallai John gysylltu â’r Fenter i weld faint o gopiâu sydd ar ôl o’r ail argraffiad o “Gloi’r Clwydi” a gynhyrchwyd yn 1993.</p> <p>8. <u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u></p> <p>Cynhelir y cyfarfod nesaf o’r pwyllgor hwn ar Nos Iau 4ydd o Hydref 2012 am 7.30 y.h. yn nhafarn Y Ffermwyr , Llangyndeyrn.</p> <p>9. Bydd copi Saesneg o’r cofnodion hyn ar gael yn y cyfarfod nesaf i’r rhai fydd yn awyddus i’w derbyn.</p> <p>Diana Thomas-Laidlaw (Ysgrifenyddes y Pwyllgor Dathlu Achub Llangyndeyrn a Chwm Gwendraeth Fach.)</p>	<p>R.R.</p> <p>C.S.</p> <p>L.P.</p> <p>J.T.</p>